Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| | |
|---|---|
| Enw'r polisi neu'r maes busnes: | Cynllun Heddlu a Throseddu 2022-25 |
| Enw'r unigolyn sy'n cynnal yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: | Cheryl Gayther |
| Swydd yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: | Rheolwr Cydymffurfiaeth a Pherfformiad Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) |

## 1. Diben

| | |
|---|---|
| 1.1 Beth yw nodau'r Polisi, y Weithdrefn neu'r Gweithgaredd a sut maen nhw'n cyd-fynd â nodau ehangach y sefydliad? | Un o gyfrifoldebau allweddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw cyhoeddi cynllun heddlu a throseddu cyn gynted â phosibl ar ôl cychwyn y swydd, ac o fewn y flwyddyn ariannol y cafodd ei ethol.<br><br>Hysbysir ac adlewyrchir cynllun CHTh gan yr heriau, peryglon a chyfleoedd allweddol yn Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid allweddol. Bydd yn cyfarwyddo Cynllun Cyflenwi'r Heddlu a'r adnoddau yn ogystal â darparu'r sail ar gyfer monitro perfformiad yr heddlu a phennu, sy'n gyfrifoldeb ar y prif gwnstabl i gyflenwi ar gyfer yr ardal heddlu.<br><br>Bydd y cynllun yn nodi blaenoriaethau CHTh ac yn rhoi manylion am y mesurau amrywiol ar gyfer cyflenwi ac asesu'r blaenoriaethau hyn.<br><br>Wrth ffurfio'r cynllun hwn, mae sesiynau ymgynghori'n cael eu cynnal gyda phreswylwyr ardal Dyfed-Powys er mwyn deall eu barn, sy'n sicrhau bod y cynllun yn cael ei lunio gan y cyhoedd a rhanddeiliaid lleol. |
| 1.2 Beth yw'r cymhellion neu'r grymoedd gyrru wrth ddatblygu'r Polisi, y Weithdrefn neu'r Gweithgaredd? | Yn unol ag adran 5(1) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, rhaid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu osod yr amcanion heddlu a throseddu ar gyfer eu hardal drwy gynllun heddlu a throseddu, gan gynnwys praesept a chyllideb yr heddlu. |

## 2. Asesiad

Er mwyn asesu'r effaith y mae'r Polisi, y Weithdrefn neu'r gweithgaredd wedi'i chael neu'n debyg o'i chael ar unigolyn, mae'n bwysig edrych ar yr holl ddata a gwybodaeth sydd ar gael ichi. Efallai y bydd yn angenrheidiol sicrhau gwybodaeth bellach trwy ymgynghoriad, y dylid ei gynnwys hefyd.

Rydych chi'n edrych ar duedd a all ddigwydd pan fydd gwahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau o bobl yn y ffordd y mae'r Polisi, y Weithdrefn neu'r gweithgaredd yn effeithio arnynt, yng nghyswllt Nodweddion Gwarchodedig (Oed, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred).

Wrth gynnal yr asesiad hwn, awgrymir y dylech chi ystyried:

- **Data yn ymwneud â data amrywiaeth personol** sy'n berthnasol i'r polisi. Er enghraifft, os yw'r polisi yn perthyn i gyflenwi gwasanaeth, yna rhaid ichi edrych ar ddata megis data cyfrifiad, ac unrhyw ddata amrywiaeth personol yr ydym yn ei gadw mewn perthynas â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny.
- **Data achwyniad** - mae'n bosibl y bydd yn adnabod materion a allai fod angen mynd i'r afael â hwy trwy asesiad effaith cydraddoldeb e.e. os oes cwynion yn ymwneud â hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn yn y ddalfa, yna bydd yn rhaid mynd i'r afael â'r rhain trwy'r asesiad effaith cydraddoldeb wrth adolygu polisi'r ddalfa;
- **Unrhyw ymchwil sydd ar gael mewn perthynas ag anghyfartaledd yn ymwneud â'r mater polisi** – gallai hyn gynnwys adroddiadau AHEM, adroddiadau Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ati. Er enghraifft, mae nifer o adroddiadau sy'n tynnu sylw at anghyfartaledd yn ymwneud â stopio a chwilio, ac amrywiaeth swyddogion yr heddlu y gellid eu hystyried wrth ddrafftio asesiadau perthnasol o'r effaith ar gydraddoldeb;
- **Ymgynghori gyda grwpiau amrywiol, gan gynnwys ein heiriolwyr amrywiaeth, aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol a rhwydweithiau cymorth staff.** Byddai hyn yn cynnig elfen o her allanol i'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac yn sicrhau bod barnau ein cymunedau amrywiol yn cael eu hystyried;
- **Unrhyw ddata arolwg sy'n bodoli mewn perthynas â'r mater hwn** gan gynnwys unrhyw adborth gan ddefnyddwyr yr ydym yn ei dderbyn. Efallai y gallai Gwella Busnes eich cynorthwyo chi o ran hyn.

Mae detholiad o ddata a allai fod yn ddefnyddiol i chi i'w weld ar dudalen fewnrwyd yr adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Os fyddwch chi angen unrhyw gyngor ynglŷn â pha wybodaeth/data sydd angen i chi eu hystyried wrth ymgymryd â'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae croeso ichi gysylltu â'r Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar 23071.

| Rhestrwch yr holl ddata/ymgynghoriad/ymchwil yr ydych wedi'u hystyried wrth gynnal yr asesiad hwn: |
|---|
| Cynhaliwyd ymgynghoriadau a gwaith ymchwil manwl cyn argymell y blaenoriaethau, gan gynnwys:<br><br>• Ystyried dogfennau plismona cenedlaethol:<br>    ○ Y Gofyniad Plismona Strategol<br>    ○ Gweledigaeth Blismona 2030<br>    ○ Mesurau Plismona a Throsedd Cenedlaethol<br>    ○ Cynllun Curo Trosedd Llywodraeth y DU<br>    ○ Fframwaith Asesu Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb (PEEL) Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM)<br>    ○ Deddfwriaethau perthnasol:<br>        ▪ Deddf yr Heddlu a Chydraddoldeb Cymdeithasol 2011<br>        ▪ Gorchymyn Protocol Plismona 2011<br>• Ystyried datblygiadau cenedlaethol allweddol yng Nghymru:<br>    ○ Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol<br>    ○ Deddfwriaethau perthnasol lle nad yw Comisiynwyr Heddlu a Throseddu o reidrwydd wedi'u henwi fel "cyrff perthnasol" oherwydd eu bod nhw'n cael eu llywodraethu gan San Steffan, ond er budd cydweithio a chysondeb â phartneriaid statudol, mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru'n ddoeth i ystyried:<br>        ▪ Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol<br>        ▪ Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol<br>• Cymeradwyo dogfennau allweddol Heddlu Dyfed-Powys:<br>    ○ Strategaeth Reoli<br>    ○ Blaenoriaethau ac uchelgeisiau ar gyfer 2021<br>    ○ Fframwaith perfformiad a chynllun cyflenwi'r Prif Gwnstabl<br>    ○ Asesiad Strategol<br>    ○ Canlyniadau archwiliadau ac arolygiadau<br>    ○ Adroddiadau perfformiad<br>    ○ Datganiad Rheoli'r Heddlu<br>• Adolygiad o flaenoriaethau partneriaid o dan y ddyletswydd gilyddol:<br>    ○ Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus<br>    ○ Partneriaethau Diogelwch Cymunedol<br>    ○ Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>    ○ Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>    ○ Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru<br>    ○ Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys<br>• Ymgynghori â'r canlynol:<br>    ○ preswylwyr a busnesau o fewn ardal Dyfed-Powys drwy'r holiadur praesept blynyddol ym mis Rhagfyr 2020; |

| |
|---|
| - detholiad o uwch reolwyr a rheolwyr canol o fewn Heddlu Dyfed-Powys drwy weithdai, gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Tri Gorwel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru;<br>- grwpiau lleiafrifol sydd â llai o lais drwy sesiynau a hwyluswyd;<br>- partneriaid a rhanddeiliaid allweddol drwy wahoddiad personol i ddefnyddio pecyn arweiniad i ymgynghoriad; a'r<br>- cyhoedd ehangach drwy arolwg ar-lein a chopi caled a hyrwyddwyd drwy gyfryngau cymdeithasol a'r wasg leol<br><br>Yn ogystal â dadansoddiad o adroddiadau adolygu / melin drafod ac ystyriaeth o arferion mewn mannau eraill. |

**Rhowch fanylion canlyniad eich asesiad yn y graff isod:**

Rhaid ichi nodi unrhyw ganfyddiadau fan hyn. A yw'ch ymchwil wedi adnabod unrhyw effaith negyddol neu anghymesur ar rai grwpiau? A ydym wedi derbyn cwynion gan rai grwpiau mewn perthynas â'r Polisi, y Weithdrefn neu'r gweithgaredd? A yw aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol wedi codi unrhyw bryderon? Nodwch unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn y graff isod.

| **A allai'r Polisi, y Weithdrefn neu'r Gweithgaredd gael effaith anghymesur o negyddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?** | |
|---|---|
| **2.1 Oed** | Na, gallai'r cynllun wahaniaethu'n bositif tuag at y grŵp oed hŷn. Disgwylir y bydd ardal Dyfed-Powys yn gweld twf o 20-28% yn y boblogaeth sy'n heneiddio, gyda'r rhai dros 65 oed sy'n byw gyda dementia yng Nghymru'n cynyddu 64% erbyn 2035.<br><br>Mae blaenoriaeth 1 yn canolbwyntio ar gefnogi dioddefwyr pob grŵp oed, gyda dyletswydd statudol i ddiogelu plant a phobl ifainc a hyrwyddo eu lles.<br><br>Mae Heddlu Dyfed-Powys yn disgwyl cynnydd o ran camfanteisio ar blant, materion diogelu ar-lein a thrais yn erbyn plant (mewn perthynas â Dileu'r Amddiffyniad o Gosb Resymol).<br><br>Mae blaenoriaeth 2 yn canolbwyntio ar atal niwed, ac mae'n cefnogi protocol cenedlaethol yn arbennig ar gyfer lleihau troseddoli pobl ifainc a phlant â phrofiad o'r gwasanaeth gofal yn anghymesur. |

| | |
|---|---|
| | Mae blaenoriaeth 3 yn cynnwys cefnogi darpariaeth ar gyfer pobl ifainc sy'n pontio rhwng gwasanaethau troseddau ieuenctid a phrawf.<br><br>Mae'r cynllun yn edrych ar wella effeithiolrwydd mecanweithiau craffu SCHTh ar gyfer helpu i adeiladu ffydd a hyder, gan gynnwys sicrhau bod pobl ifainc yn medru cymryd rhan ystyrlon mewn dal yr heddlu i gyfrif |
| **2.2 Anabledd** | Na, mae blaenoriaeth 1 yn canolbwyntio ar ddiogelu'r rhai sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai sydd ag anableddau, a allai fod mewn perygl o ddioddef trosedd.<br><br>Cyfeiriwyd dros 27,000 o ddioddefwyr ac unigolion agored i niwed at wasanaethau a gomisiynir gennyf i yn 2020-21. (Mae hyn yn cynnwys Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol, Eiriolwyr Trais Rhywiol Annibynnol, cymorth ar gyfer dioddefwyr a thystion, gwasanaeth ôl-drafod ar gyfer pobl ifainc sydd wedi bod ar goll, a gwasanaethau troseddau ieuenctid ac atal.) |
| **2.3 Ailbennu rhywedd** | Na. Mae'r cynllun hefyd yn ymgymryd â gwaith er mwyn deall a mynd i'r afael â gwahaniaethau yn ffydd y cyhoedd yn yr heddlu ymysg grwpiau oedran, hiliau a rhywiau gwahanol, gan gynnwys oedolion ifainc. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithlonrwydd mecanweithiau craffu SCHTh ar gyfer helpu i adeiladu ffydd a hyder<br>. |
| **2.4 Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Na. Mae proffiliau cartrefi a phoblogaeth ledled Dyfed-Powys wedi'u hystyried wrth sefydlu blaenoriaethau. |
| **2.5 Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Na. Adlewyrchir hyn yn ein Nod Lles Cenedlaethol: Cymru Fwy Cyfartal: cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth pa beth bynnag yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau. |
| **2.6 Hil** | Na. Mae ymgymryd â gwaith i ddeall a mynd i'r afael â gwahaniaethau yn ffydd y cyhoedd yn yr heddlu ymysg grwpiau oedran, hiliau a rhywiau gwahanol, gan gynnwys oedolion ifainc, yn rhan o'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithlonrwydd mecanweithiau craffu SCHTh ar gyfer helpu i adeiladu ffydd a hyder.<br>. |

| | |
|---|---|
| **2.7 Crefydd neu Gred** | Na. Mae ymgymryd â gwaith i ddeall a mynd i'r afael â gwahaniaethau yn ffydd y cyhoedd yn yr heddlu ymysg grwpiau oedran, hiliau a rhywiau gwahanol, gan gynnwys oedolion ifainc, yn rhan o'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithlonrwydd mecanweithiau craffu SCHTh ar gyfer helpu i adeiladu ffydd a hyder. |
| **2.8 Rhyw** | Na. Mae ymgymryd â gwaith i ddeall a mynd i'r afael â gwahaniaethau yn ffydd y cyhoedd yn yr heddlu ymysg grwpiau oedran, hiliau a rhywiau gwahanol, gan gynnwys oedolion ifainc, yn rhan o'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithlonrwydd mecanweithiau craffu SCHTh ar gyfer helpu i adeiladu ffydd a hyder. |
| **2.9 Cyfeiriadedd Rhywiol** | Na. Mae ymgymryd â gwaith i ddeall a mynd i'r afael â gwahaniaethau yn ffydd y cyhoedd yn yr heddlu ymysg grwpiau oedran, hiliau a rhywiau gwahanol, gan gynnwys oedolion ifainc, yn rhan o'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithlonrwydd mecanweithiau craffu SCHTh ar gyfer helpu i adeiladu ffydd a hyder. |

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, rhaid gwneud yr ystyriaethau a ganlyn hefyd mewn perthynas â'r Gymraeg:

| | |
|---|---|
| **2.10** Rhowch dystiolaeth o sut yr ydych chi wedi ystyried sut y byddai'r penderfyniad polisi wedi cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol cynyddol, ar - a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn | Bydd y cynllun hwn yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi'n ddwyieithog.<br><br>Ystyriwyd proffil y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ar draws ardal Dyfed-Powys wrth sefydlu'r cynllun.<br><br>Mae'r Cynllun yn ystyried gofynion Mesur y Gymraeg (Cymraeg) 2011 o ran sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Bydd y Comisiynydd hefyd yn cefnogi'r Prif Gwnstabl i fuddsoddi mewn cynyddu capasiti Heddlu Dyfed-Powys i gyflwyno gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| llai ffafriol na'r Saesneg. | |
| **2.11** Rhowch dystiolaeth o sut yr ydych chi wedi ystyried na fyddai'r penderfyniad polisi hwn yn cael effeithiau niweidiol, neu sut y byddai'n cael effeithiau niweidiol gostyngol, ar — (a) gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Fel yr uchod |

## 3. Cynllun gweithredu i ostwng yr effaith a adnabuwyd

Os oes effaith negyddol neu anghymesur wedi'i hadnabod, yna rhaid inni gymryd camau i ostwng neu ddileu'r effaith hon drwy wneud newidiadau perthnasol i'r Polisi, y Weithdrefn neu'r gweithgaredd.

Os ystyrir bod y Polisi, y Weithdrefn neu'r gweithgaredd sy'n achosi'r effaith yn gyfiawn, yna rhaid esbonio'n glir y rhesymau dros y casgliad hwn.

| | |
|---|---|
| **Effaith a nodwyd:** | Dim |

| | |
|---|---|
| **Camau a gynigiwyd :**<br><br><br>**D.S. Os ystyrir bod modd cyfiawnhau'r effaith, yna dylid amlinellu'r rhesymau yn glir.** | Dim |
| | |
| **Dyddiad cwblhau:** | 12/10/2021 |
| **Dyddiad adolygu:** | |
| | |
| | |

**copïwch a gludwch y tabl uchod cynifer o weithiau ag y dymunwch chi, gan ddibynnu ar nifer yr 'effeithiau' a adnabuwyd)